# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol y Ddwylan

## Adroddiad Gwrthwynebu



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


1. CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 1
2. CEFNDIR ........ 1
3. Y CYFNOD GWRTHWYNEBU ........ 1
4. DADANSODDI'R YMATEBION ........ 2
5. Y GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW ........ 2
6. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL ........ 3
7. OPSIYNAU ERAILL ........ 14
8. CASGLIAD ........ 14
9. ARGYMHELLIAD ........ 15
10. Y CAMAU NESAF ........ 15

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol y Ddwylan o 4-11 i 3-11 o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion rhwng 4 Medi 2025 a 16 Hydref 2025. Ar ôl ystyried a chyhoeddi'r adroddiad ymgynghori yn unol ag Adran 3 o'r Cod ar 26 Ionawr 2026, penderfynodd aelodau Cabinet y Cyngor Sir fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol o dan Bennod 4 o'r Cod.

Ar y cyfan, roedd y gyfradd ymateb yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn isel iawn ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, mynegodd rhanddeiliaid bryderon am effaith bosibl y cynnig ar ddarparwyr gofal plant lleol, cyflogaeth a'r economi ehangach. Amheuodd gwrthwynebwyr pa mor addas oedd gosod plant tair oed mewn amgylchedd ysgol, gan dynnu sylw at faterion fel nodi ADY yn gynnar, maint dosbarthiadau, capasiti, a pharhad gofal cofleidiol.

Roedd pryderon pellach yn ymwneud â'r broses ymgynghori a dichonoldeb ariannol y cynnig ac roedd rhai yn amheus ynghylch a oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn ddigonol ac yn gynaliadwy. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd yr angen am athro Blynyddoedd Cynnar cymwysedig/athrawes Blynyddoedd Cynnar gymwysedig i sicrhau darpariaeth o safon uchel i ddysgwyr iau.

## 2. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a gynhaliwyd rhwng 10 Chwefror 2026 a 10 Mawrth 2026 mewn ymateb i gynigion i newid ystod oedran Ysgol Gynradd y Ddwylan o 4–11 i 3–11, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg feithrin ran-amser.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol a phroses y cyfnod gwrthwynebu, yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

## 3. Y CYFNOD GWRTHWYNEBU

Dilynodd proses y cyfnod gwrthwynebu ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth

Ysgolion 2018 (Adran 4). Rhoddodd y cyfnod gwrthwynebu gyfle i unrhyw un oedd yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig wneud hynny.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol yn gyfreithlon am gyfnod o 28 diwrnod (gan gynnwys 15 diwrnod ysgol) ar 10 Chwefror 2026. Roedd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a chafodd ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau caled o'r ddogfen ar gael ar gais ac wedi'u gosod ar ffens derfyn a gatiau'r ysgol. Roedd yr hysbysiad yn amlinellu'r cynnig sy'n cael ei ystyried a'r manylion ynghylch sut y gellid cyflwyno gwrthwynebiadau. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Mawrth 2026.

## 4. DADANSODDI'R YMATEBION

Mae'r ymatebion a ddaeth i law rhwng 10 Chwefror a 10 Mawrth 2026 wedi'u hamlinellu isod:

| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 0 | 3 | 0 | 3 |

Roedd dau o'r negeseuon e-bost a ddaeth i law gan yr un anfonwr. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn cyflwyno gwrthwynebiadau/mynegi pryderon yn bennaf. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau yn cefnogi'r cynigion. Ni chafodd yr Awdurdod Lleol unrhyw sylwadau hwyr.

## 5. Y GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW

Bydd yr adran hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, gan dynnu sylw at y themâu sydd wedi dod i'r amlwg ac ymatebion yr Awdurdod Lleol.  Ni chafwyd unrhyw ymatebion yn cefnogi'r cynnig.

**Dadansoddiad Thematig o'r Adborth**

Dyma'r themâu a ddaeth i'r amlwg drwy'r ymatebion a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu:

1. **Effaith ar ddarparwyr gofal plant lleol** -  risg i hyfywedd a niferoedd.

2. **Effeithiau ar gyflogaeth/effeithiau economaidd -** honiadau o ddileu swyddi a niwed economaidd ehangach.

3. **Addasrwydd 3 oed -** pryder bod 3 oed yn rhy ifanc ar gyfer bywyd ysgol.

4. **Nodi ADY yn gynnar/capasiti o ran ADY** - ofn y bydd anghenion yn cael eu "colli" mewn ysgol.

5. **Maint dosbarthiadau/cymarebau/capasiti** - risg o "ystafelloedd dosbarth â llawer o ddisgyblion".

6. **Gofal cofleidiol ac oriau -** pryder bod angen gofal 8am–6pm ar rieni a gallai'r ddarpariaeth gael ei thanseilio.

7. **Proses ymgynghori/tegwch** - canfyddiad bod y penderfyniad wedi'i wneud/ymarfer ticio bocs.

8. **Astudiaeth ddichonoldeb/effeithiau economaidd -** ceisiadau am asesiad economaidd/dichonoldeb ffurfiol.

9. **Yr angen am athro Blynyddoedd Cynnar cymwysedig/athrawes Blynyddoedd Cynnar gymwysedig -** awgrym fel dull lliniaru.

## 6. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi themâu'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn gydwybodol yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn unol ag Adran 5.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 ac yn rhoi ymatebion i'r themâu hynny a godwyd. Mae'r cyfrif ar gyfer pob thema yn adlewyrchu nifer yr ymatebion unigryw sy'n sôn amdani:

| **Thema:** Effaith ar ddarparwyr gofal plant lleol. | **Nifer yr Ymatebion** | 2 |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Ymatebion:**<br>Pryder y bydd y cynnig yn niweidio lleoliadau Blynyddoedd Cynnar lleol, yn lleihau niferoedd ar gyfer darparwyr cymunedol ac annibynnol ac yn bygwth cynaliadwyedd y lleoliadau hynny. | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol** | | |

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried effaith cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a'r trydydd sector wrth ychwanegu darpariaeth feithrin.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod risg y gallai'r cynnig leihau'r galw am leoedd mewn meithrinfeydd preifat a Chylchoedd Meithrin a chyda gwarchodwyr plant. Cafodd y risg hon ei chofnodi yn y ddogfen ymgynghori a'i hystyried fel rhan o'r broses statudol. Nid bwriad y cynnig yw tanseilio unrhyw leoliad gofal plant unigol neu ei roi dan anfantais. Yn hytrach, y nod yw ategu'r ddarpariaeth bresennol drwy gynnig opsiwn arall o ran addysg ran-amser y Blynyddoedd Cynnar i deuluoedd, yn unol â dyletswydd yr Awdurdod i sicrhau mynediad teg at addysg a ariennir ledled y sir.

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod yr 11 lle a gynigir ar gyfer addysg y Blynyddoedd Cynnar yn anstatudol ac yn rhan-amser yn unig (10 awr yr wythnos). Gall rhieni barhau i ddewis lleoliadau preifat neu wirfoddol ar gyfer lleoedd a ariennir neu ofal cofleidiol. Mae hyn yn cefnogi hyfywedd parhaus lleoliadau gofal plant lleol ac yn adlewyrchu'r dull marchnad gymysg sy'n sail i ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru.

Nid oes unrhyw leoliadau nas cynhelir fel meithrinfeydd dydd neu Gylchoedd Meithrin sy'n cynnig darpariaeth addysg anstatudol a gymeradwywyd yn ardal Castellnewydd Emlyn, felly y model ysgol yw'r ffordd fwyaf hyfyw o ddiwallu'r angen hwn. Felly, nod y cynnig hwn yw mynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth a gwella dewisiadau i deuluoedd yn yr ardal sy'n gorfod teithio i gael mynediad at ddarpariaeth addysg y Blynyddoedd Cynnar mewn mannau eraill.

Yn bwysig ddigon, nid yw cyflwyno addysg ran-amser yn disodli nac yn dyblygu'r gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr gofal plant lleol. Bydd angen gofal plant dydd llawn neu hyblyg ar deuluoedd lleol o hyd, a'r lleoliadau cymunedol ac annibynnol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu hynny. Mae gan y darparwyr hyn rôl gref o hyd o ran gweithio ochr yn ochr â'r ysgol, er enghraifft, drwy gynnig oriau estynedig, sesiynau gofal plant cyn ac ar ôl darpariaeth ysgol, a chefnogi trefniadau casglu a gollwng lle bo hynny'n briodol. Mae rhai o'r darparwyr gofal plant lleol eisoes yn cynnig y mathau hyn o wasanaethau.

Mae modelau tebyg eisoes wedi'u sefydlu'n dda mewn rhannau eraill o Sir Gaerfyrddin ac ar draws Cymru, lle mae ysgolion a lleoliadau gofal plant lleol yn gweithredu ochr yn ochr heb niweidio cynaliadwyedd darparwyr. Mae'n bosibl y bydd y cynnig arfaethedig o ran addysg

gynnar yn yr ysgol yn cryfhau'r ddarpariaeth leol drwy gynnig mwy o ddewis i rieni a chreu cyfleoedd i weithio'n agosach mewn partneriaeth.

Mae data cyfradd genedigaethau ar gyfer dalgylch Ysgol y Ddwylan yn dangos patrwm cyson o 10–16 genedigaeth y flwyddyn, sy'n dangos lefel sefydlog y galw am ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn y dyfodol.

Er mai nod y cynnig yw mynd i'r afael â bwlch sydd wedi'i nodi'n glir, cydnabyddir hefyd y gallai cyflwyno darpariaeth Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion arwain at lai o alw am leoedd mewn meithrinfeydd preifat lleol a chyda gwarchodwyr plant, sydd ar hyn o bryd yn darparu gofal plant ond nid yr elfen addysgol. Gall lleihad cymedrol yn y nifer sy'n derbyn y lleoedd olygu goblygiadau o ran eu cynaliadwyedd ariannol a'r farchnad gofal plant ehangach. Gallai derbyniadau i'r ddarpariaeth newydd hefyd gynnwys ceisiadau o'r tu allan i'r dalgylch, a allai ddylanwadu ar batrymau lleol o ran y nifer sy'n derbyn y lleoedd. Ar y cyfan, er y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â mynediad annheg at addysg y Blynyddoedd Cynnar, gallai hefyd newid dosbarthiad plant rhwng lleoliadau, gan arwain at ganlyniadau posibl i wydnwch y ddarpariaeth gofal plant leol.

| **Thema:** | Effeithiau ar gyflogaeth/effeithiau economaidd. | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:**

Risg bosibl o ddileu swyddi staff mewn darparwyr gofal plant lleol, llai o oriau, effeithiau cynyddol ar deuluoedd a'r trethdalwr.

Mynegwyd sawl pryder am effaith bosibl y cynnig ar gynaliadwyedd darpariaeth gofal plant yn yr ardal leol. Yn benodol, tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod lleoliadau gofal plant lleol gyda'i gilydd yn darparu lleoedd i nifer sylweddol o blant cyn oed ysgol, gan gynnwys llawer sy'n dair oed neu'n agosáu at eu trydydd pen-blwydd.

Mynegodd ymatebwyr bryder y gallai cyflwyno addysg ran-amser y Blynyddoedd Cynnar i blant tair oed yn yr ysgol arwain at newid sylweddol yn y galw wrth i gyfran o deuluoedd ddewis darpariaeth yn yr ysgol yn hytrach nag opsiynau gofal plant presennol. Nodwyd y gallai newid o'r fath leihau nifer y plant sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal plant lleol yn sylweddol, gan arwain at heriau ariannol i ddarparwyr.

Nododd yr ymatebwyr hefyd fod rhai lleoliadau yn yr ardal wedi'u cofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Mynegwyd pryderon, os bydd llai o blant tair oed yn aros mewn

lleoliadau gofal plant, efallai y bydd llai o leoedd a ariennir a chymorth sy'n gysylltiedig â'r Cynnig ar gael i ddarparwyr.

Yn olaf, tynnodd yr ymatebwyr sylw at oblygiadau sylweddol posibl i staffio mewn lleoliadau preifat. Os bydd llai o blant, gallai hynny effeithio ar lefel y gwaith sydd ar gael mewn lleoliadau gofal plant, gan arwain at leihau oriau staff neu, yn yr achosion gwaethaf, at ddileu swyddi os nad yw darparwyr yn gallu cynnal eu gweithlu presennol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar lefelau staffio, cynaliadwyedd busnes ac oriau gwaith mewn lleoliadau gofal plant lleol. Mae'r pryderon hyn yn cael eu deall ac nid yw'r Awdurdod yn diystyru pwysigrwydd cynnal gweithlu gofal plant sefydlog, medrus ac ariannol hyfyw yn y gymuned.

Mae'n bwysig pwysleisio ei fod yn gynnig anstatudol, ar raddfa fach, o 11 o leoedd addysg ran-amser y Blynyddoedd Cynnar sy'n rhoi cyfanswm o 10 awr yr wythnos a bod cyfranogiad yn gwbl wirfoddol i deuluoedd.  Nid yw'r cynnig yn cynnwys gofal plant dydd llawn ac nid yw'n efelychu'r hyblygrwydd, yr oriau estynedig na'r ddarpariaeth gofleidiol y mae meithrinfeydd preifat a Chylchoedd Meithrin yn eu cynnig. Gan na ellir pennu ymlaen llaw y nifer fydd yn derbyn y lleoedd ac nad yw tarddiad daearyddol unrhyw ymgeiswyr yn hysbys ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl meintioli unrhyw newidiadau yn y galw am leoedd gofal plant mewn modd dibynadwy. Byddai unrhyw amcangyfrif o'r effaith ar staffio, oriau neu gynaliadwyedd busnes felly yn ddamcaniaethol ac yn annhebygol o ddarparu casgliadau ystyrlon neu rai seiliedig ar dystiolaeth.

Nid bwriad y cynnig yw disodli na lleihau'r ddarpariaeth gofal plant bresennol. Mae lleoliadau gofal plant lleol, gan gynnwys y Cylch Meithrin ar y safle a meithrinfeydd preifat, yn darparu gwasanaethau hanfodol na all yr ysgol eu hefelychu, megis gofal dydd llawn, oriau hyblyg, darpariaeth gofleidiol a chymorth i deuluoedd sy'n gweithio.  Bydd angen y gwasanaethau hyn ar lawer o rieni o hyd er gwaethaf yr addysg ran-amser sydd ar gael ac mae'r cynnig wedi'i gynllunio i ategu yn hytrach na chystadlu â'r farchnad gofal plant leol drwy ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i deuluoedd.

Mae tystiolaeth o rannau eraill o Sir Gaerfyrddin a Chymru yn dangos bod addysg y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant preifat fel arfer yn gweithredu'n

llwyddiannus ochr yn ochr â'i gilydd. Mae modelau wedi'u sefydlu'n dda ledled y sir, lle mae ysgolion a darparwyr gofal plant yn cynnal perthnasoedd gwaith cryf a lle mae galw parhaus am ofal cofleidiol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd am yr effaith bosibl ar staffio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar preifat. Er bod y pryderon hyn yn cael eu cydnabod, mae graddfa gyfyngedig y cynnig, sy'n cynnwys 11 o leoedd rhan-amser, yn golygu bod unrhyw newid o ran dewis y rhieni yn annhebygol o gael gwared ar yr angen parhaus am ofal plant dydd llawn neu hyblyg, sef y gofal plant y mae llawer o deuluoedd sy'n gweithio yn dibynnu arno. Mae'r Awdurdod yn gwerthfawrogi'r rôl bwysig sydd gan feithrinfeydd preifat wrth ddarparu cyflogaeth, cefnogi teuluoedd a darparu profiadau blynyddoedd cynnar o safon uchel, ac nid yw'n disgwyl i'r cynnig danseilio'r rôl hon.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n adeiladol gyda darparwyr gofal plant lleol, gan gynnwys meithrinfeydd a'r Cylch Meithrin i gefnogi trefniadau cyflenwol megis gofal cofleidiol, pontio rhwng lleoliadau a sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd lle bo hynny'n briodol. Gall y modelau cydweithredol hyn helpu i gynnal marchnadoedd gofal plant lleol wrth alluogi rhieni i elwa ar addysg gynnar a ariennir ac opsiynau gofal plant hyblyg.

Nod cyffredinol y cynnig yw sicrhau bod teuluoedd yn parhau i gael mynediad at gymysgedd o ofal plant ac addysg gynnar sy'n amrywiol, yn gynaliadwy ac o safon uchel heb ganlyniadau niweidiol i fusnesau lleol, staff neu'r gymuned ehangach. Bydd yr Awdurdod yn monitro'r effaith bosibl ar ddarparwyr gofal plant fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol parhaus pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu.

| **Thema:** Addasrwydd tair oed | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:**

Ystyrir bod tair oed yn rhy ifanc ar gyfer bywyd ysgol, pryder am ystafelloedd dosbarth mawr a pharodrwydd disgyblion mor ifanc.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, y bydd cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol yn cael ei gyflwyno yn unol â'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer disgyblion tair oed. Mae addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i chynllunio'n benodol o amgylch anghenion dysgwyr iau, gyda phwyslais ar chwarae, archwilio a datblygiad cymdeithasol yn hytrach nag addysg ffurfiol.

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio nad yw addysg y Blynyddoedd Cynnar yn cyfateb i addysg statudol amser llawn. Mae presenoldeb i blant tair oed yn wirfoddol ac mae rhieni neu warcheidwaid yn parhau i fod yn rhydd i benderfynu a ydynt yn teimlo bod eu plentyn yn barod i fynychu'r ysgol. Mae gan blant tair oed hawl i 10 awr yr wythnos o addysg ran-amser a gall teuluoedd ddewis cael mynediad at hyn yn raddol yn seiliedig ar anghenion eu plentyn.

Ar draws y sir, mae sawl model ysgol 3–11 llwyddiannus eisoes yn gweithredu lle mae plant oedran meithrin yn datblygu, yn ffynnu ac yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddysgu mewn amgylchedd meithringar, sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r ysgolion hyn yn dangos y gall integreiddio darpariaeth Blynyddoedd Cynnar o fewn strwythur ysgol gynradd gynnig parhad, sefydlogrwydd a chymorth o safon uchel i blant o ddechrau eu taith addysgol.

Mae gan Ysgol y Ddwylan ystafelloedd dosbarth pwrpasol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer disgyblion oedran meithrin sydd â chapasiti a chyfleusterau addas ar gyfer darpariaeth Blynyddoedd Cynnar. Bydd staffio yn cael ei drefnu o fewn gweithlu presennol yr ysgol, gan ddefnyddio ymarferwyr cymwysedig ac yn unol â safonau gweithlu cenedlaethol, i sicrhau profiad o safon uchel, sy'n briodol yn ddatblygiadol i bob dysgwr Blynyddoedd Cynnar.

Hefyd, mae amgylchedd yr ysgol yn gallu cefnogi dysgu mewn grwpiau bach, chwarae yn yr awyr agored a rhyngweithiadau wedi'u cynllunio'n ofalus sydd i gyd yn elfennau hanfodol i gefnogi llesiant a chynnydd plant tair oed. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drosglwyddiad i ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn blaenoriaethu diogelwch emosiynol, anghenion datblygiadol a pharodrwydd y plant.

| **Thema:** Nodi ADY yn gynnar/capasiti o ran ADY | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:**

Roedd ymatebion yn awgrymu bod lleoliadau meithrin preifat yn nodi ADY yn gynnar ac yn mynegi ofn bod ysgolion dan ormod o bwysau a gallai plant gael eu colli.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn hyderus bod gan Ysgol y Ddwylan y staff, yr arbenigedd a'r systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl.

Mae canfyddiadau Estyn ar gyfer yr ysgol a nodir yn eu hadroddiad o 2022 yn dangos prosesau ADY cadarn ac arferion cynhwysol ar draws yr ysgol. Dywedodd Estyn "*Mae gan y staff*

*adnabyddiaeth gadarn o anghenion disgyblion, ac o ganlyniad, caiff trefniadau cefnogi eu llunio yn gynnar i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae aelodau staff yn wybodus ac yn cyflwyno ystod fwriadus o raglenni cymorth effeithiol i ddisgyblion i fynd i'r afael â'u lles emosiynol ac i wella'u hunan-barch. O ganlyniad, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth gynhwysfawr sy'n eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau.*

*Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn nodwedd hynod gadarn. Mae gan bob disgybl sydd ag ADY gynllun addysg unigol, sy'n cynnwys targedau penodol y mae staff yn eu hadolygu gyda'u rhieni'n rheolaidd. Mae'r sgyrsiau anffurfiol dyddiol sy'n digwydd rhwng y staff cynorthwyol a'r athrawon yn eu galluogi i fonitro cynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol ac i addasu'r ddarpariaeth yn amserol i fodloni unrhyw dargedau newydd sydd ganddynt. Mae cysylltiadau cadarn gydag ystod o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth iaith a lleferydd a chwnsela, yn darparu cymorth arbenigol a buddiol i ddisgyblion sydd ei angen."*

Felly ni fydd cyflwyno addysg ran-amser y Blynyddoedd Cynnar yn yr ysgol yn lleihau cyfleoedd i nodi anghenion yn gynnar. Yn hytrach, disgwylir iddo gryfhau hyn drwy integreiddio addysg, gofal plant a chymorth amlasiantaeth mewn un lleoliad.

| **Thema:** Maint dosbarthiadau/cymarebau/capasiti | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:**

Pryder am ystafelloedd dosbarth â llawer o ddisgyblion a sylw cyfyngedig o gymharu â lleoliadau meithrin.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryder y gallai plant iau gael llai o sylw unigol mewn amgylchedd ysgol nag mewn lleoliad meithrin. Mae sicrhau darpariaeth Blynyddoedd Cynnar o safon uchel â lefelau priodol o gymorth yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol ac Ysgol y Ddwylan.

Pe bai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol y Ddwylan o 4-11 i 3-11 yn cael ei gymeradwyo, byddai'r ysgol yn ad-drefnu ei strwythur dosbarthiadau i ddarparu'n briodol ar gyfer y disgyblion meithrin. Byddai hyn yn creu 314 o leoedd yn yr ysgol, 43 o leoedd meithrin, a chyfanswm nifer y lleoedd o 357, ynghyd â Nifer Derbyn o 44. Yn ôl data CYBLD 2026, mae gan yr ysgol ddau

ddisgybl meithrin amser llawn ar hyn o bryd. O dan y cynnig, byddai 11 o leoedd meithrin rhan-amser yn cael eu cynnig.

Bydd y ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cael ei staffio a'i threfnu'n wahanol i grwpiau blwyddyn hŷn. Bydd staff ymroddedig a phrofiadol yn gweithio gyda grwpiau bach o blant gan ddefnyddio dull sy'n briodol i'w hoedran, sy'n seiliedig ar chwarae, sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru.  Mae'n rhaid i'r ysgol gydymffurfio â chanllawiau a chymarebau cenedlaethol ar gyfer addysg y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod plant ifanc yn derbyn cymorth a goruchwyliaeth briodol.

Yn ogystal, byddai'r amgylchedd dysgu yn Ysgol y Ddwylan yn cynnig arferion strwythuredig, darpariaeth barhaus ac arsylwadau datblygiadol sydd o safon debyg i leoliadau meithrin. Bydd staff profiadol yn yr ysgol yn monitro cynnydd pob plentyn yn agos i nodi unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar.

Felly, ni ddisgwylir y bydd cyflwyno lleoedd addysg ran-amser yn creu ystafelloedd dosbarth â llawer o ddisgyblion neu'n lleihau sylw unigol. Byddai Ysgol y Ddwylan yn addasu ei staffio a threfn y dosbarthiadau i sicrhau bod disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd meithringar â chefnogaeth dda sy'n bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnal safonau uchel o ofal a dysgu.

| **Thema:** | Gofal cofleidiol ac oriau | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:**

Mae angen gofal dydd llawn ar rieni, ofn bod y model ysgol yn tanseilio darpariaeth gofleidiol/ar ôl ysgol gan gynnwys hyfywedd a staffio mewn lleoliadau preifat lleol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ystyried i ba raddau y mae addysg y Blynyddoedd Cynnar wedi'i hintegreiddio â gwasanaethau gofal plant. Fel rhan o'r astudiaeth Plant sy'n Codi'n 4 oed, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad i nodi ardaloedd lle roedd diffygion yn narpariaeth addysg y Blynyddoedd Cynnar ar draws y sir. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â darparwyr gofal plant lleol i drafod a oedd diddordeb mewn darparu addysg y Blynyddoedd Cynnar yn eu lleoliadau. Ni chafwyd unrhyw ymatebion yn mynegi diddordeb mewn darparu addysg y Blynyddoedd Cynnar gan ddarparwyr yn ardal Castellnewydd Emlyn ac felly mae'r cynnig i gyflwyno darpariaeth yn Ysgol y Ddwylan wedi'i ddatblygu.

Mae'r cynnig i newid ystod oedran yr ysgol yn canolbwyntio ar ddarparu addysg ran-amser y Blynyddoedd Cynnar ac nid yw'n bwriadu disodli na lleihau'r opsiynau gofal plant sydd ar gael i deuluoedd ar hyn o bryd. Mae Cylch Meithrin eisoes yn gweithredu ar safle'r ysgol, gan gynnig darpariaeth Blynyddoedd Cynnar sefydledig i'r gymuned. Mae potensial sylweddol i'r ysgol a'r Cylch Meithrin weithio ar y cyd i gyflwyno model cyflenwol, lle byddai'r ysgol yn darparu addysg ran-amser a'r Cylch Meithrin yn parhau i gynnig gofal plant cofleidiol i deuluoedd sydd angen oriau hirach neu fwy hyblyg.

Mae'r math hwn o drefniant eisoes yn gweithio'n llwyddiannus mewn llawer o ysgolion ledled Cymru, lle mae lleoliadau addysg a gofal plant yn gweithredu ochr yn ochr i ddarparu cyfuniad di-dor o addysg gynnar a gofal plant i deuluoedd.

Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn atal darparwyr gofal plant lleol rhag parhau i gynnig gwasanaethau casglu a gollwng os ydynt yn gallu gwneud hynny. Mae'n eithaf cyffredin cael trefniant lle mae darparwyr preifat yn cefnogi plant sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin rhan-amser mewn ysgolion eraill drwy eu cludo i leoliadau ac oddi yno ar gyfer rhieni sydd angen gofal dydd llawn. Mae'r math hwn o drefniadau eisoes yn cael eu cynnig gan rai darparwyr gofal plant lleol a byddent yn gallu parhau ac o bosibl ehangu mewn ymateb i’r galw gan rieni.

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod addysg y Blynyddoedd Cynnar a gynigir yn anstatudol ac yn rhan-amser yn unig (10 awr yr wythnos). Gall rhieni barhau i ddewis lleoliadau preifat neu wirfoddol ar gyfer lleoedd a ariennir neu ofal cofleidiol. Mae hyn yn cefnogi hyfywedd parhaus lleoliadau gofal plant lleol ac yn adlewyrchu'r dull marchnad gymysg sy'n sail i ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru.

Nod cyffredinol y cynnig yw cynyddu dewis i rieni drwy gyflwyno addysg y Blynyddoedd Cynnar a ariennir ar safle'r ysgol yn ogystal â chynnal ac o bosibl gwella hyfywedd opsiynau cofleidiol a gofal plant lleol. Fodd bynnag, mae risg y gallai gweithredu'r cynnig effeithio ar ddarparwyr gofal plant lleol.

| **Thema:** Proses ymgynghori/tegwch | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:**

Canfyddiad y gallai ymgynghori a chyfle i wrthwynebu fod yn esgus yn hytrach nag ymarfer diwydrwydd dyladwy ar y mater.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r canfyddiad y gallai'r broses ymgynghori fod yn ffurfioldeb yn hytrach na chyfle ystyrlon i ddylanwadu ar y canlyniad. Mae'r Awdurdod yn dymuno rhoi sicrwydd i'r holl randdeiliaid nad yw hyn yn wir. Rhaid i bob cynnig trefniadaeth ysgolion ddilyn y gweithdrefnau statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n golygu bod yn rhaid cynnal ymgynghoriad llawn, teg a thryloyw cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad. Ni chaiff penderfyniad terfynol ei wneud nes bod yr holl gamau statudol wedi'u cwblhau, gan gynnwys dadansoddi'r holl adborth a chyhoeddi adroddiad cynhwysfawr i Aelodau etholedig ei ystyried. Mae hyn yn sicrhau bod y broses yn gadarn, yn gyfreithlon ac wedi'i llywio gan farn y rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt.<br><br>Roedd yr ymgynghoriad cychwynnol mewn perthynas â'r cynnig yn cydymffurfio ag Adran 3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan ddarparu o leiaf 42 diwrnod gan gynnwys 20 diwrnod ysgol a hysbysu'r holl ymgyngoreion rhagnodedig, gan gynnwys darparwyr Blynyddoedd Cynnar annibynnol fel Mudiad Meithrin. Lluniwyd adroddiad ymgynghori a oedd yn cynnwys yr adborth a gafwyd ar y cynnig. Cafodd yr Adroddiad Ymgynghori ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir a'i gyflwyno i'r Cabinet a benderfynodd symud ymlaen a chyhoeddi Hysbysiad Statudol ar y cynnig. Roedd y cyfnod gwrthwynebu yn dilyn canllawiau yn Adran 4 o'r Cod ac yn para 28 diwrnod. Mae'r tri gwrthwynebiad a ddaeth i law wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol i bob thema. Bydd y Cabinet yn ystyried yr hyn sydd yn yr adroddiad hwn ac yn penderfynu symud ymlaen â diwygiad neu heb ddiwygiad i'r Cyngor Sir lle bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig ai peidio. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi o fewn 7 diwrnod i unrhyw benderfyniad gan y Cyngor Sir. Yn ogystal, bydd copïau caled ar gael ar gais i unrhyw un sydd am weld yr adroddiad. | | | |
| **Thema:** | Astudiaeth dichonoldeb/economaidd | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
| **Crynodeb o'r Ymatebion:**<br><br>Cwestiynau ynghylch a yw astudiaethau dichonoldeb ac economaidd ynghylch yr effeithiau (busnes, swyddi, manteision) wedi'u cynnal. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (A1.5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod asesu costau rheolaidd, yr effaith ar leoedd dros ben a materion eraill sy'n gysylltiedig â chyllid. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal astudiaethau economaidd a dichonoldeb ar effeithiau ehangach posibl cynigion. Roedd y Ddogfen Ymgynghori yn darparu | | | |

amcanestyniadau CYBLD, dadansoddiad o leoedd dros ben, manylion am gyllid dirprwyedig i blant 3 oed (£2,044 y disgybl) a manylion ariannol gofynnol eraill gan fodloni gofynion asesu ariannol statudol.

Nid yw'r Awdurdod Lleol wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb neu effaith economaidd ffurfiol yn ymwneud ag effaith bosibl y cynnig hwn ar fusnesau neu leoliadau gofal plant lleol. Fodd bynnag, tynnodd y ddogfen ymgynghori gychwynnol sylw at ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin fel sy'n ofynnol yn Adran 1.9 o'r Cod. Tynnwyd sylw at yr effaith negyddol bosibl ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a'r trydydd sector, pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, yn y ddogfen ymgynghori. Cydnabuwyd, os caiff ei weithredu, y gallai olygu bod llai yn cofrestru ar gyfer darparwyr gofal plant, gan y gallai teuluoedd ddewis y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar a gynigir yn Ysgol y Ddwylan yn hytrach na lleoliadau preifat neu wirfoddol. Gallai hyn beri i ddarparwyr lleol golli incwm ac, mewn rhai achosion, gallai olygu bod lleoliadau gwledig llai mewn perygl o gau. Gallai niferoedd llai hefyd arwain at golli swyddi neu lai o staff yn y gweithlu gofal plant lleol.

Mae'r cynnig i ddarparu addysg ran-amser y Blynyddoedd Cynnar yn anstatudol ac mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol i deuluoedd. Gan mai dim ond 11 o leoedd addysg ran-amser sy'n cael eu cynnig a chan na ellir rhagweld faint fydd yn derbyn y lleoedd, nid yw'n bosibl modelu ffynhonnell darpar ddisgyblion yn gywir nac i ba raddau y gallai hynny effeithio ar unrhyw ddarparwr gofal plant unigol. Byddai unrhyw astudiaeth o'r fath felly yn ddamcaniaethol ac yn annhebygol o ddarparu casgliadau ystyrlon neu ddibynadwy.

Prif nod y cynnig yw mynd i'r afael â bwlch a nodwyd yn narpariaeth addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ardal Castellnewydd Emlyn. Mae hyn yn dilyn ymgynghori â darparwyr lleol fel rhan o'r astudiaeth Plant sy'n Codi'n 4 oed, lle nad oedd unrhyw ddarparwyr wedi mynegi diddordeb mewn cynnig darpariaeth addysg y Blynyddoedd Cynnar a ariennir eu hunain.

Yn bwysig ddigon, nid disodli gwasanaethau gofal plant yw nod cyflwyno addysg ran-amser yn yr ysgol. Mae'n debygol y bydd angen gofal plant cofleidiol a dydd llawn o hyd ar deuluoedd yn yr ardal leol. Mae darparwyr lleol yn cadw'r cyfle i weithio ochr yn ochr â'r ysgol i gynnig darpariaeth gyflenwol fel oriau estynedig, sesiynau gofal plant ac opsiynau casglu/gollwng. Mewn sawl rhan o Sir Gaerfyrddin a ledled Cymru, mae trefniadau tebyg yn gweithredu'n llwyddiannus heb effaith negyddol ar gynaliadwyedd gofal plant lleol. Fodd bynnag, rhaid nodi y gallai fod effeithiau negyddol fel y nodwyd uchod.

| **Thema:** Yr angen am athro Blynyddoedd Cynnar cymwysedig/athrawes Blynyddoedd Cynnar gymwysedig | **Nifer yr Ymatebion** | 1 |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Ymatebion:**<br><br>Nodwyd disgwyliadau y dylai'r dosbarth gael ei arwain gan athro Blynyddoedd Cynnar cymwysedig/athrawes Blynyddoedd Cynnar gymwysedig. | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Bydd staffio yn cael ei drefnu o fewn gweithlu presennol yr ysgol, ac yn unol â safonau gweithlu cenedlaethol, i sicrhau darpariaeth Blynyddoedd Cynnar o safon. | | |

## 7. OPSIYNAU ERAILL

Ni chafwyd unrhyw opsiynau clir eraill i'w hystyried gan y tri ymateb a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

## 8. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r pryderon a fynegwyd y gallai'r newidiadau a gynigir effeithio ar feithrinfeydd preifat a lleoliadau Cylch Meithrin yn yr ardal, ac mae'n rhaid ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

Ar ôl ystyried pryderon a fynegwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ystyrir y byddai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol y Ddwylan yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar ddisgyblion presennol a disgyblion yn y dyfodol. Byddai cynnig 11 o leoedd meithrin yn yr ysgol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael 10 awr o addysg y Blynyddoedd Cynnar yn y gymuned yn gwneud y canlynol:

- rhoi mwy o opsiynau i rieni ar gyfer darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn yr ardal leol.
- cynnig proses bontio raddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau'r ysgol, gan ddechrau gyda sesiynau hanner diwrnod a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn.
- denu mwy o ddisgyblion o bosib i fynychu'r ysgol, gan leihau nifer y lleoedd gwag a gwneud yr ysgol yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.
- creu taith addysgol barhaus i blant o bosib wrth iddynt symud ymlaen i Ysgol Gyfun Emlyn, gan gryfhau parhad ac integreiddio cymunedol.

- cynyddu nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael yng Nghastellnewydd Emlyn, gan helpu i leihau anghydraddoldeb o ran cyfleoedd a deilliannau mewn addysg.
- cynnig cyfleoedd cynnar i drochi yn y Gymraeg, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau ieithyddol disgyblion.
- cefnogi teuluoedd sydd ar hyn o bryd angen teithio i ysgolion y tu allan i'r dalgylch er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar gyfatebol.

## 9. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, argymhellir y dylid ceisio caniatâd i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 heb ddiwygiad. Nid oes unrhyw gynigion cysylltiedig a fyddai'n atal neu'n tanseilio gweithredu'r cynnig. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu manteision y cynnig a nodwyd, gan gynnwys mwy o ddewis i rieni, gwell parhad addysg, gwella cynaliadwyedd yr ysgol, ac effeithiau cadarnhaol ar gyfle cyfartal a datblygu'r Gymraeg.

## 10. Y CAMAU NESAF

Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid argymell bwrw ymlaen â'r cynigion ai peidio. Yna bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir, a fydd yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ai peidio. Bydd yr adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o fewn 7 diwrnod i unrhyw benderfyniad a bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais. Bydd yr holl ymgyngoreion gofynnol yn cael gwybod ei fod ar gael.